Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diweddariad ar ein Cynllun Plant a Phobl Ifainc

## Y pethau rydyn ni'n wneud i gefnogi plant a phobl ifainc yng Nghymru



Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Diweddariad ar Gynllun Plant a Phobl Ifainc: Ionawr 2024**'.

**Ebrill 2024**

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Mae'r llyfryn yma'n hawdd ei ddeall. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**.

Mae **Meic** yn fudiad sy'n cynnig cefnogaeth i bobl ifainc. Os ydych chi'n meddwl bod ar rywun angen help ewch i: www.meiccymru.org

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen yma yn Hawdd ei Deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn Hawdd ei Ddeall yma, cliciwch yn y fan yma.

Rhif Trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am beth mae'r llyfryn yma'n sôn....... 4**

**Y pethau rydyn ni'n eu gwneud....... 5**

**Beth sy'n bwysig ....... 10**

**Sut byddwch chi'n gwybod y byddwn ni'n gwneud beth rydyn ni'n ddweud....... 26**

**Sut y byddwn ni'n eich cynnwys chi....... 26**

# Am beth mae'r llyfryn yma'n sôn




Yn 2022 gwnaethon ni gynllun. Roedd y fersiwn Hawdd ei Ddeall yn cael ei alw'n '**Ein cynllun ar gyfer plant a phobl ifain**'.




Gallwch ddod o hyd iddo wrth fynd i'r fan yma:
Cynllun plant a phobl ifainc LLYW.CYMRU




Mae hwn yn ddiweddariad ar y pethau rydyn ni wedi'u gwneud. A'r pethau byddwn ni'n eu gwneud nesaf.



Mae arnon ni eisiau gwneud bywyd yn well i bawb sy'n byw yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys plant a phobl ifainc.

# Y pethau rydyn ni'n eu gwneud

Dyma rai o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu:

## Teuluoedd, Rhieni a Gofalwyr




Mae gennym ni wasanaeth cefnogi ar gyfer rhieni. Mae'n cael ei alw'n Magu plant. Rhowch amser iddo. Mae'n cynnig cyngor a gwybodaeth.

Teuluoedd yn Gyntaf Families First

Rydyn ni hefyd yn cynnig cefnogaeth trwy ein Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a'n rhaglen Teuluoedd yn gyntaf.

## Rhoi mwy o arian ym mhocedi teuluoedd



Mae gennym ni linell gymorth sy'n cael ei galw'n Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi. Bydd hyn yn helpu pobl i hawlio'r budd-daliadau y gallan nhw eu cael.

# Cefnogi iechyd plant a phobl ifainc



Mae mamau'n cael cefnogaeth ar gyfer plentyn heb ei eni pan ydyn nhw'n disgwyl.



Rydyn ni'n cefnogi plant i fod yn iach trwy **Raglen Plant Iach Cymru**. Mae hyn ar gyfer plant hyd at saith mlwydd oed.



Mae gennym ni wasanaeth ateb galwadau newydd ar gyfer pobl sydd ag angen cefnogaeth frys â'u hiechyd meddwl.



Rydyn ni hefyd yn cynnig brechlyn Feirws Papiloma Dynol i bob disgybl ysgol uwchradd. Mae hwn yn bigiad sy'n amddiffyn pobl rhag cael math o ganser sy'n cael ei alw'n ganser ceg y groth.

## Cefnogi dysgwyr



Mae arnon ni eisiau i bob plentyn gael addysg deg, beth bynnag ydy ei gefndir.



Mae pob ysgol wedi dechrau dilyn **Cwricwlwm Newydd Cymru**. Bydd yn cael ei roi ar waith yn llawn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.



Rydyn ni hefyd yn gweithio'n galed i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.



Rydyn ni'n cefnogi pobl ifainc â chyngor am yrfaoedd trwy **Gyrfa Cymru**.




Rydyn ni hefyd yn gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn dysgu siarad Cymraeg.



Mae pob ysgol yn cael gwasanaeth ar-lein sy'n cael ei alw'n Hwb.

## Cartrefi diogel



Rydyn ni'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod mwy o gartrefi mae pobl yn gallu eu fforddio.



Dylai'r cartrefi hyn fod yn gynnes, yn ddiogel, ac o ansawdd da.



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod y bobl sydd mewn cartrefi dros dro yn cael eu helpu i symud i gartref mwy parhaol cyn gynted â phosibl.



# Cefnogi plant a phobl ifainc sydd mewn gofal




Dylai pob plentyn sydd mewn gofal gael cynllun cefnogi gan eu cyngor lleol (awdurdod lleol).



Dylai cynghorau lleol roi’r plant mewn cartref sy’n iawn ar eu cyfer nhw.



Dylen nhw gael eu cadw’n ddiogel ac yn iach.




Dylai pobl ifainc hefyd gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw pan fyddan nhw’n gadael gofal.

# Beth sy'n bwysig




Yn 2021 fe wnaethon ni gynllun a gafodd ei alw'n **Rhaglen ar gyfer y Llywodraeth**.




Mae'r rhaglen yn sôn am bethau mae arnon ni eisiau eu cyflawni, gan gynnwys pethau ar gyfer plant.



Rydyn ni'n bwriadu gwneud pethau mawr i wneud yn siŵr bod plant yn cael eu trin yn deg.



Hefyd, gwneud yn siŵr nad ydy plant yn byw mewn tlodi. Mae hyn yn meddwl bod ganddyn nhw ddigon o arian i fyw yn dda. Ac y gallan nhw ddefnyddio gwasanaethau da.



Nawr byddwn yn siarad mwy am y pethau mawr hyn.

# 1. Dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd

Roedden ni'n dweud mai'r peth mwyaf pwysig oedd gwneud yn siŵr:



- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys gwasanaethau blynyddoedd cynnar da.



- Mae gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr.



- Dylai plant gael eu cefnogi ble bynnag y maen nhw.

**Beth mae hyn yn ei feddwl:**



- Cefnogaeth i rieni pan fyddan nhw’n disgwyl babi.



- Cefnogaeth i fabanod sydd newydd gael eu geni.



- Addysg dda.

- Gofal plant.



- Gwasanaethau cefnogi fel **Dechrau’n Deg.**



- Cyfleoedd i blant chwarae.





- Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn gynnar yn eu plentyndod.

## Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud nesaf



- Byddwn yn dal ati i weithio ar raglen sy'n cael ei galw'n **Bwndel Babi**. Bydd hyn yn rhoi rhai eitemau angenrheidiol i rieni newydd ar gyfer eu babi. Pethau fel blancedi a dillad.




- Gwneud cynllun ar gyfer plant 0 i 5 mlwydd oed. Bydd yn ymwneud â chwarae a dysgu.



- Helpu plant â'u lleferydd trwy raglen sy'n cael ei galw'n [Siarad gyda Fi](#).



- Dal ati i roi arian i'r gwasanaeth helpu i ddysgu Cymraeg yn gynnar yn eu plentyndod.



- Datblygu rhaglen **Dechrau'n Deg** drwy'r amser.

## 2. Dylai pob plentyn gael ei drin yn deg yn yr ysgol

**Beth mae hyn yn ei feddwl**



- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod plant yn cael profiad da yn yr ysgol.



- Byddwn yn rhoi i blant y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i wneud yn dda.



- Byddwn yn rhoi mwy o gefnogaeth i blant pan fyddan nhw'n gadael ysgol.



- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr sydd ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i wneud yn dda.



- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod prydau ysgol yn iach.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud nesaf**




- Bydd pob dysgwr yn yr ysgol gynradd yn cael prydau ysgol am ddim erbyn Medi 2024.




- Byddwn yn gweithio gyda chynghorau lleol i wella adeiladau ysgol.



- Byddwn yn chwilio i weld pa gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar ddysgwyr rhwng 14 a 16 oed.

## 3. Dylai pob plentyn a phobl ifainc gael cefnogaeth ag addysg, hyfforddiant a gwaith

**Beth mae hyn yn ei feddwl**



- Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod gan bob person ifanc dros 16 oed ddewis o bethau i'w gwneud ar ôl gadael ysgol. Gallai fod yn waith, yn addysg, neu'n hyfforddiant.



- Byddwn yn eu cefnogi yn eu dewisiadau.



- Byddwn yn gwella addysg a hyfforddiant.




- Rydyn ni wedi cynyddu faint o arian y gall pobl ifainc ei gael ar gyfer hyfforddiant, prydau bwyd, a chludiant.




- Rydyn ni'n cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifainc rhwng 16 a 25 oed.



- Gall mwy o bobl ddefnyddio rhaglen ddysgu sy'n cael ei galw'n **Dwf Swyddi Cymru**. Mae hon yn rhaglen ddysgu ar gyfer pobl ifainc sy'n cael ei gwneud yn y gwaith. Mae'n rhoi'r medrau a'r profiad sydd ei hangen arnyn nhw i fedru gwneud gwaith am dâl. Neu fwy o hyfforddiant.



- Gwnaethon ni gynnal sgwrs genedlaethol â phobl ifainc rhwng 16 a 24 oed, a barodd am flwyddyn. Siaradon ni â phobl ifainc trwy arolygon, grwpiau ffocws a gweithdai. Helpon nhw ni i ddeall sut i wella'r ffordd rydyn ni'n cefnogi pobl ifainc.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud**



- Byddwn yn dal ati i gyfarfod â grŵp sy'n cael ei alw'n **Fwrdd Ymgynghori Pobl Ifainc**.



- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod cefnogaeth ar gael i helpu pobl ifainc wneud dewisiadau am ddysgu a gwaith.

# 4. Dylai pob plentyn a phobl ifainc gael eu cefnogi i fod yn iach



**Beth mae hyn yn ei feddwl**

- Byddwn yn meddwl am les plant ym mhopeth rydyn ni'n wneud.



- Byddwn yn cefnogi gweithgareddau sy'n helpu i wella lles.




- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod mwy o gefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl plant. Does dim gwahaniaeth pa fath o gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Mae ar rai pobl angen ychydig bach o gefnogaeth. Ac mae ar bobl eraill angen llawer.



- Rydyn ni wedi diweddaru **Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifainc**. Mae hyn yn rhoi cyngor a gwybodaeth am iechyd meddwl.



- Mae gennym ni gynllun tymor hir i helpu plant i fod â phwysau iach.




- Mae gennym ni wasanaethau cefnogi ar gyfer pobl ifainc ynglŷn ag iechyd rhywiol.



- Rydyn ni'n cefnogi pobl ifainc i ddysgu am y niwed y gall **Fepio** ei achosi. Mae **Fepio y**n rhywbeth mae pobl yn ei ddefnyddio i roi'r gorau i ysmygu. Ond mae rhai pobl wedi dechrau mynd i'r arfer o wneud hynny.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud nesaf**



- Gweithio gyda mudiadau eraill i edrych mwy i mewn i iechyd a lles.



- Edrych sut y gall plant gael mwy o ymarfer tra byddan nhw yn yr ysgol.



- Ei gwneud hi'n gyfraith i rwystro cwmnïau rhag hysbysebu bwyd sydd ddim yn iach o gwbl.

## 5. Dylai pob plentyn a phobl ifainc gael cyfle teg mewn bywyd

**Beth mae hyn yn ei feddwl**




- Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifainc i wybod eu hawliau. A chael eu trin yn deg ac yn gyfartal.




- Byddwn yn helpu i roi diwedd ar dlodi. Tlodi ydy pan na fydd gan bobl ddigon o arian i fyw yn dda. A byddwn yn rhoi cefnogaeth i bobl sydd heb ddigon o arian.



- Byddwn yn rhoi i blant y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Beth bynnag ydy eu hanghenion.



- Byddwn yn ceisio rhoi diwedd ar fwlio. A thrais.



- Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn lanach. Mae hyn yn bwysig er mwyn i blant gael dyfodol iach.



- Rydyn ni wedi cychwyn cynllun i bobl ifainc gael tocynnau bws yn rhatach.





- Rydyn ni wedi lleihau terfyn cyflymder ceir ar lawer o ffyrdd. Bydd hyn yn helpu i wneud ffyrdd yn fwy diogel i blant.



- Rydyn ni wedi gwneud mwy o waith gyda theuluoedd y mae eu plant wedi cyflawni troseddau. Mae hyn yn ymwneud â sut i gefnogi'r teuluoedd yn dda.

## Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud nesaf




- Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad sy'n cael ei alw'n **Strategaeth Tlodi Plant**.



- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal. Beth bynnag ydy ei anghenion. A dal i wneud cynlluniau ynglŷn â'r materion hyn.




- Byddwn yn diweddaru ein canllawiau am roi diwedd ar fwlio.



## 6. Dylai pob plentyn gael cartref iach a diogel i fyw ynddo

**Beth y mae hyn yn ei feddwl**



- Byddwn yn gwneud popeth a allwn i rwystro plant rhag bod yn ddigartref.



- Os ydyn nhw'n ddigartref, byddwn yn gwneud popeth a allwn i newid hyn.




- Rydyn ni wedi rhoi llawer o arian at wasanaethau tai a chefnogaeth.



- Gwnaethon ni gynllun ynglŷn â chefnogi pobl ifainc sy'n gadael gofal.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud nesaf**



- Byddwn yn dal i roi arian tuag at **Grant Cefnogi Pobl Ifainc**. Mae hyn i helpu rhwystro pobl ifainc rhag mynd yn ddigartref.




- Byddwn yn cyhoeddi adroddiad am newidiadau newydd i ddeddfau'n ymwneud â'r digartref.



- Byddwn yn gwneud nifer y teuluoedd sydd â phlant mewn cartrefi dros dro yn llai.



## 7. Dylai pob plentyn gael y gefnogaeth sydd ei hangen arno i fod gyda'i deulu

**Beth mae hyn yn ei feddwl**



- Byddwn yn cefnogi teuluoedd sy'n mynd trwy amser anodd.



- Byddwn yn amddiffyn plant rhag niwed.



- Byddwn yn gwella gofal a chefnogaeth ar gyfer plant sydd ddim yn gallu aros gyda'u teulu.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud nesaf**



- Cynnig cefnogaeth i rieni os ydy eu plant mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal.




- Byddwn yn rhoi arian i Maethu Cymru. Mae teuluoedd maeth yn darparu cartrefi diogel ar gyfer plant sydd ddim yn gallu byw yn eu cartref eu hunain.

## Sut byddwch chi'n gwybod y byddwn ni'n gwneud beth rydyn ni'n ddweud




Byddwn yn gwneud adroddiad ar y pethau rydyn ni wedi eu gwneud.

## Sut y byddwn ni'n eich cynnwys chi




- Byddwn yn gwrando ar farn pobl.



- Byddwn yn siarad â phobl ifainc â'u teuluoedd.



- Gallwch ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl trwy e-bostio: helpigwsmeriaid@llywodraeth.cymru



- Gallwch wneud cwyn trwy:

  **ffonio:** 03000 251738

  **neu trwy e-bostio:** complaints@gov.wales